**PWYLLGOR SAFONAU**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2012**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr. Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mr Islwyn Jones (Is-Gadeirydd)<br>Ms Denise Harris Edwards<br>Mrs Dilys Shaw<br><br>**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Y Cynghorydd T. Lloyd Hughes<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| **WRTH LAW**: | Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) / Swyddog Monitro,<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro (RMJ)<br>Rheolydd y We a Gwybodaeth Gorfforaethol (PA) (ar gyfer eitem 3),<br>Swyddog Gofal Cwsmer (BJ) (ar gyfer eitemau 4, 5 a 6)<br>Swyddog Adnoddau Dynol (CW) (ar gyfer eitem 7)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr Leslie Lord |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb. |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb gan nac Aelod na Swyddog.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin, 2012.

**3 Y SEFYLLFA GYFREDOL MEWN PERTHYNAS Â CHYHOEDDI COFRESTRAU STATUDOL AR-LEIN**

Cafwyd adroddiad diweddaru gan Reolydd y We a Gwybodaeth Gorfforaethol mewn perthynas ag ychwanegu at gyhoeddi datganiadau o ddiddordeb gan Aelodau ar-lein i gynnwys datganiadau ynghylch rhoddion a lletygarwch ynghyd â diddordeb mewn cyfarfodydd ac fel bod modd diweddaru'n rhyngweithiol y ffurflenni rhoddion a lletygarwch a'r Cofrestrau Sefydlog.

Bu oedi o ran gweithredu'r system Mod.gov oherwydd materion staffio, ond unwaith y bydd y system wedi ei sefydlu, bydd Aelodau yn derbyn hyfforddiant, gan gynnwys Aelodau'r Pwyllgor Safonau. Ni fydd hyn yn digwydd tan ar ôl Mai 2013.

Draft

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Cyflwynir adroddiad ar gynnydd gan Reolydd y We a Gwybodaeth Gorfforaethol i'r Pwyllgor Safonau nesaf ar 31 Hydref 2012.**

**4 PROSIECT RHEOLI CWYNION**

Cafwyd adroddiad diweddaru gan y Swyddog Gofal Cwsmer.

Cwtogwyd ar y prosiect oherwydd gwrthod cais am gyllid. Cymeradwywyd mandad prosiect newydd ac mae cynllun prosiect yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd a fydd yn arwain at fabwysiadu canllawiau bras yn unig ac na fydd yn cynnwys y rhaglen ymgysylltu ehangach o ran gwasanaethau cwsmer. Mae'r diffyg adnoddau hwn yn amlwg hefyd mewn Cynghorau eraill yng Nghymru a dim ond 9 o'r 22 sydd wedi mabwysiadu'r canllawiau newydd, a hyd yn oed yn yr achosion hynny, dim ond i raddau cyfyngedig.

Sefydlwyd tîm o 4 o Swyddogion Gofal Cwsmer pwrpasol yn y Gwasanaeth Tai a gobeithir y bydd gwaith y tîm hwnnw'n gwella'r elfen gofal cwsmer yn y prosiect fel y cafodd ei ddylunio'n wreiddiol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**GWEITHREDU: Cyflwynir adroddiad diweddaru gan y Swyddog Gofal Cwsmer i'r Pwyllgor Safonau nesaf ar 31 Hydref 2012.**

**5 CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I'R OMBWDSMON**

5.1 Cyflwynwyd - er gwybodaeth, adroddiad diweddaru gan y Swyddog Gofal Cwsmer mewn perthynas â chwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am Aelodau Etholedig ac ymchwiliadau i'r cwynion hynny.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU: Cyflwynir diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Swyddog Gofal Cwsmer i'r Pwyllgor Safonau nesaf ar 31 Hydref 2012, gan gynnwys dadansoddiad o adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cymru a fydd yn cynnwys patrymau sy'n berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn.**

5.2 Cyflwynwyd - er gwybodaeth, adroddiad diweddaru gan y Swyddog Gofal Cwsmer mewn perthynas â chwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am Gynghorwyr Tref a Chymuned ac ymchwiliadau i'r cwynion hynny.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU: Cyflwynir diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Swyddog Gofal Cwsmer i'r Pwyllgor Safonau nesaf ar 31 Hydref 2012.**

**6 CRYNODEB O BENDERFYNIADAU'R PANEL DYFARNU**

Adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer mewn perthynas â chasgliadau ymchwiliadau a wnaed gan Banel Dyfarnu Cymru o 1 Ebrill 2012 i 30 Mehefin 2012.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Dim**

Draft

**7 (A)  STATWS Y GWEITHGOR DATBLYGU AELODAU**

Cafwyd diweddariad gan y Swyddog Adnoddau Dynol ar faterion a oedd yn codi o’r Cynllun Datblygu Aelodau a‘r Gweithgor Datblygu Aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi’r adroddiad.**

**GWEITHREDU:  Cyflwynir diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach i’r Pwyllgor Safonau nesaf ar 31 Hydref 2012.**

**(B)  CYFLWYNO ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL AR GYFER AELODAU**

Cafwyd adroddiad diweddaru gan y Swyddog Adnoddau Dynol mewn perthynas â’r uchod.

Nodwyd y bydd y broses Adolygu Datblygiad Personol yn cael ei hymestyn i weddill yr Aelodau etholedig ac y rhoddir hyfforddiant yn ystod mis Medi i’r Aelodau hynny.

**PENDERFYNWYD:  nodi’r adroddiad.**

**GWEITHREDU:  Rhoddir hyfforddiant ar Adolygiadau Datblygiad Personol yn ystod mis Medi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru dan reolaeth Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor.  Cyflwynir diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach i’r Pwyllgor Safonau nesaf ar 31 Hydref 2012, gan gynnwys dadansoddiad o ba mor fuddiol fu’r broses a cheir cyfle i weld y cynllun hyfforddi drafft ar gyfer Aelodau am y cyfnod 2012/2014.**

**8  FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

- Cyflwynwyd - a nodwyd, nodiadau’r Swyddog Monitro ar y cyfarfod o’r Fforwm Pwyllgorau Safonau gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 24 Ebrill 2012.

  Nododd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)/Swyddog Monitro faterion penodol o bwys, gan roi pwyslais yn arbennig ar y tebygolrwydd y bydd disgwyl i Bwyllgorau Safonau ddelio’n lleol yn o fuan gydag anghydfodau llai difrifol rhwng aelodau, yn hytrach na bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio iddynt.

  Yn ogystal, disgwylir y bydd Canllawiau newydd ar gyfer Cynghorwyr Sir ac Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned gyda hyn.  Bydd y canllawiau yn cael sylw yn y cyfarfod chwarterol nesaf o’r Pwyllgor Safonau os byddant wedi eu cyhoeddi erbyn hynny.

  **PENDERFYNWYD nodi’r adroddiad.**

  **GWEITHREDU:  Bod y 2 set o Ganllawiau ar y Côd Ymddygiad yn cael eu cyflwyno am sylw i’r cyfarfod chwarterol nesaf o’r Pwyllgor Safonau ar 31 Hydref 2012.**

  **Adroddir ar unrhyw gynnydd mewn perthynas â phenderfynu’n lleol i’r cyfarfod chwarterol nesaf o’r Pwyllgor Safonau ar 31 Hydref 2012.**

- Cylchredwyd yn ogystal, ac er gwybodaeth, nodiadau’r Swyddog Monitro ar y Fforwm Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2012.

**9  ADRODDIAD Y CADEIRYDD I’R CYNGOR AR 10 MAI 2012**

Cyflwynwyd – yr Adroddiad Blynyddol gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i’r Cyngor Sir yn amlinellu gwaith y Pwyllgor yn 2011/12 ac yn cyflwyno ei Raglen Waith ar gyfer 2012/13.

Draft

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Dim.**

**10 PAPUR GWYN**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)/Swyddog Monitro mewn perthynas â Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Hyrwyddo Democratiaeth Leol.

Cyfeiriodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)/Swyddog Monitro yn benodol at y rhannau o'r Papur Gwyn sy'n ymwneud â gwaith y Pwyllgor Safonau. Ar ôl trafod pynciau unigol penderfynodd y Pwyllgor Safonau ymateb fel a ganlyn:-

- **Cwestiwn 29: A ddylai'r Panel gael y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am bob cydnabyddiaeth ariannol a dderbyniodd cynghorwyr unigol mewn cysylltiad â chyflawni dyletswyddau cyhoeddus?**

  **Dylai**

  Ond dylai gynnwys treuliau a dylid bod eglurder ynghylch y diffiniadau o elfennau allweddol fel 'cyhoeddi', 'cydnabyddiaeth', 'dyletswyddau cyhoeddus', i sicrhau cysondeb a chymharedd.

- **Cwestiwn 38: Beth yw'r rhwystrau ymarferol rhag ymestyn y broses ddatrys leol i Gynghorau Tref a Chymuned ac ym mha ffordd y gellid eu goresgyn?**

  Mae angen i unrhyw broses/mecanwaith ar gyfer datrys yn lleol aros o fewn y Cynghorau Tref/Cymuned perthnasol oherwydd bod goblygiadau sylweddol o ran adnoddau os bydd gofyn i Bwyllgorau Safonau a Swyddogion Monitro gefnogi'r broses.

- **Cwestiwn 39: I ba raddau y mae'n angenrheidiol neu'n ddymunol diwygio'r fframwaith statudol presennol neu'r Côd Ymddygiad enghreifftiol, er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatrys cwynion yn lleol?**

  Er mwyn sicrhau cysondeb dylai'r sifft gyntaf barhau – mae'r sifft honno'n ofynnol dan y statud ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dylai materion a gyfeirir i sylw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac sy'n methu â chwrdd â'i brawf trothwy, gael eu cyfeirio'n ôl am benderfyniad i'w wneud yn lleol ynghylch a yw'r mater yn addas i'w ddatrys yn lleol ai peidio. Fel mae pethau'n sefyll, bydd y penderfyniad hwnnw'n ddewisol, gan ddisgyn y tu allan i'r fframwaith statudol.

  Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad statudol i awdurdodau fabwysiadu trefn datrys yn lleol, heb sôn am ofyniad i sicrhau cysondeb mewn protocolau lleol. Rydym yn ystyried y byddai protocol enghreifftiol ar gyfer datrys yn lleol yn ddymunol i sicrhau cysondeb, tryloywder ac i osgoi dyblygu. Ar y lleiaf, dylid cyhoeddi canllawiau yn amlinellu'r egwyddorion cyffredinol y byddai'n rhaid iddynt roi sylw i faterion allweddol fel:-

  - Ni ddylai protocolau datrys yn lleol ond ymwneud â chwynion Aelod/Aelod.
  - Ar ôl cwblhau'r sifft gyntaf, a methu â chyrraedd trothwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rhaid medru gwrthod yn fuan unrhyw fater a gyfeirir yn ôl i'w ddatrys yn lleol os yw'n fater annilys, dibwys neu'n wastraff amser. Mae angen eglurder ynghylch pwy sy'n ymarfer y disgresiwn hwnnw, ac ynghylch sut i'w ymarfer, gan y gallai'r broses ddenu dadleuon. Ein barn ni yw y dylai'r

Draft

penderfyniad gael ei wneud gan aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau, mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Monitro. Rydym yn sylweddoli bod opsiynau eraill.
- Mae angen eglurder o gwmpas rôl y Pwyllgor Safonau mewn unrhyw broses o ddatrys yn lleol.
- Mae angen eglurder ynghylch canlyniadau posib a fyddai'n codi o broses o'r fath.

- **Cwestiwn 40: A ddylid addasu'r fframwaith moesegol yng Nghymru yn fwy sylfaenol (e.e. cyflwyno proses leol o asesu ac ymchwilio i bob achos honedig o dorri'r côd ymddygiad) ac os felly, sut y dylid ei addasu?**

  **Na Ddylid**

  Byddai sifft gyntaf ar lefel genedlaethol yn parhau i fod yn ddymunol er sicrhau tegwch a chysondeb, ac i osgoi cwynion 'dant am ddant'.

- **Cwestiwn 41: A yw'r trefniadau 'galw i mewn' yn ddigonol, neu a ddylid cyfeirio achosion nad ydynt yn llwyr fodloni meini prawf presennol yr Ombwdsmon er mwyn penderfynu yn eu cylch yn lleol, a hynny fel mater o drefn?**

  **Na Ddylid**

  Dylid cyfeirio pob cwyn Aelod/Aelod sy'n disgyn yn fyr o drothwy cyfredol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, i'w datrys yn lleol ond rhaid cael disgresiwn yn lleol ynghylch a ddylid datrys materion yn lleol ai peidio, ynteu wrthod y gwyn; rhyw fath o ail sifft anffurfiol. Gweler yr ymateb i gwestiwn 39 os gwelwch yn dda.

- **Cwestiwn 42: A yw'r terfyn gwirfoddol ar indemniadau a ddarperir i'r diben hwn yn briodol ac yn ddigonol?**

  **Na Ddylid**

- **Cwestiwn 43: A ddylai Llywodraeth Cymru gyflwyno terfyn statudol ar gyfer indemniadau trwy is-ddeddfwriaeth?**

  **Dylai**

  Rydym yn awgrymu y dylid sefydlu terfynau gwahanol ar gyfer gwrandawiadau gerbron Pwyllgor Safonau, Panel Dyfarnu Cymru neu'r Uchel Lys gyda therfyn cyffredinol o £20k.

- **Cwestiwn 44: Beth yw'r rhwystrau ymddangosiadol rhag sefydlu Pwyllgorau Safonau rhanbarthol, os oes rhai?**

  Rydym yn ffafrio cynnal Pwyllgorau Safonau Lleol ond gyda'r grym i 'rannu' aelodau annibynnol, os ac fel y cyfyd yr angen, ar sail isranbarthol.

**PENDERFYNWYD anfon y sylwadau uchod at Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r cyfnod ymgynghori yn y Papur Gwyn ar Hyrwyddo Democratiaeth Leol.**

**GWEITHREDU: Cyfarwyddo'r Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)/Swyddog Monitro i anfon sylwadau'r Pwyllgor Safonau ymlaen at Lywodraeth Cymru ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd.**

**MR. M. WILSON- CADEIRYDD**

Draft

Draft